Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 996 (Cy. 254)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

# DIGOLLEDU

## Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cynyddu uchafsymiau ac isafsymiau'r taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf Digollediad Tir 1973 ("y Ddeddf") i'r rhai sy'n meddiannu annedd sydd â buddiant perchennog. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu hefyd swm y taliad colli cartref sy'n daladwy o dan y Ddeddf mewn unrhyw achos arall.

Mae hawl gan berson a ddadleolir o annedd drwy brynu gorfodol neu o dan amgylchiadau eraill a bennir yn adran 29 o'r Ddeddf i gael taliad colli cartref.

Mewn achosion pan fo gan berson sy'n meddiannu annedd ar ddyddiad y dadleoli fuddiant perchennog, mae adran 30(1) o'r Ddeddf yn darparu bod swm y taliad colli cartref yn cael ei gyfrifo fel canran o werth y buddiant hwnnw ar y farchnad, a hynny'n ddarostyngedig i uchafswm ac isafswm.

Mae adran 30(2) o'r Ddeddf yn pennu swm y taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall.

Mae rheoliad 2(a) o'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r uchafswm sy'n daladwy o dan adran 30(1) o'r Ddeddf o £55,000 i £57,500 ac mae rheoliad 2(b) yn cynyddu'r isafswm o £5,500 i £5,750.

Mae rheoliad 2(c) yn cynyddu'r taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall, o dan adran 30(2) o'r Ddeddf, o £5,500 i £5,750.

Mae'r symiau diwygiedig yn gymwys pan fo'r dadleoli'n digwydd ar 4 Rhagfyr 2017 neu ar ôl hynny.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 3 yn dirymu, gydag arbedion, Reoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 996 (Cy. 254)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

# DIGOLLEDU

## Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Hydref 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *18 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym* | *4 Rhagfyr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 30(5) o Ddeddf Digolledu Tir 1973(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy o ran Cymru(**2**):

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 4 Rhagfyr 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Digolledu Tir 1973.

(**1**) 1973 p. 26; amnewidiwyd adran 30 gan adran 68(3) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) gydag effaith o 25 Medi 1991 (*gweler* erthygl 3 o O.S. 1991/2067).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 30 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio symiau rhagnodedig y taliad colli cartref**

**2.** Pan fo dyddiad y dadleoli ar 4 Rhagfyr 2017 neu ar ôl hynny—

(a) £57,500 yw uchafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf;

(b) £5,750 yw isafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf; ac

(c) £5,750 yw swm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(2) o'r Ddeddf.

**Dirymu ac arbed**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2016(**1**) wedi eu dirymu.

(2) Bydd y Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â dadleoli sy'n digwydd cyn 4 Rhagfyr 2017.

*Carl Sargeant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, un o Weinidogion Cymru
16 Hydref 2017

(**1**) O.S. 2016/1072 (Cy. 257).